
# REVALIDATION




## Canllaw i ailddilysu ar gyfer cyflogwyr



# CYNNWYS

BETH MAE'R DDOGFEN HON YN EI WNEUD? ..... 3
BETH YW AILDDILYSU? ..... 5
Y GOFYNION AILDDILYSU A'R BROSES ..... 7
RÔL CYFLOGWYR YN Y BROSES AILDDILYSU ..... 10
DARPARU CYMORTH I NYRSYS A BYDWRAGEDD ..... 12
GOFYNION AILDDILYSU A CHYFLOGWYR ..... 16
ÔL-NODION ..... 23

Cyhoeddwyd y ddogfen hon wedi'i diweddaru ym mis Mawrth 2019

# BETH MAE'R DDOGFEN HON YN EI WNEUD?

**Cynlluniwyd y ddogfen hon i hysbysu'r rhai sy'n cyflogi nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio o'r hyn y mae ailddilysu yn ei olygu iddyn nhw.  Mae'n dangos sut y gallant gynorthwyo'r nyrsys, y bydwragedd a'r cymdeithion nyrsio y maent yn eu cyflogi wrth iddynt fynd trwy'r broses ailddilysu a sut y gall ailddilysu gael cyswllt gyda'u prosesau sefydliadol.**

Gellir gweld manylion llawn ynghylch y gofynion ailddilysu, tystiolaeth, y broses ac amserlenni ar gyfer ailddilysu yn yr arweiniad ar gyfer nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio. Gweler *Sut i ddilysu gyda CNB* trwy droi at **www.nmc.org.uk/revalidation.**

## Am CNB

Ni yw'r rheolydd annibynnol ar gyfer nyrsys a bydwragedd yn y DU a chymdeithion nyrsio yn Lloegr.

Mae gofal gwell a mwy diogel wrth wraidd yr hyn a wnawn, gan gynorthwyo'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ar ein cofrestr i ddarparu gofal o'r safon uchaf.

Rydym yn sicrhau bod nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn meddu ar y sgiliau y mae eu hangen arnynt er mwyn gofalu am bobl mewn ffordd ddiogel, gydag uniondeb, arbenigedd, parch a thosturi, o'r eiliad y byddant yn cychwyn yn eu swydd gyntaf.



# Sut y bydd CNB yn defnyddio eich gwybodaeth

Bydd CNB yn trin gwybodaeth a ddarparir gennych chi at ddibenion ailddilysu yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 bob amser.

Bydd CNB yn prosesu unrhyw ddata y byddwch yn ei ddarparu at ddibenion gweinyddu ac asesu cais ailddilysu nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yr ydych yn eu cyflogi, ynghyd ag unrhyw ddilysu dilynol o'u cais. Yn ogystal, efallai y bydd CNB yn defnyddio'r wybodaeth a geir trwy'r broses ailddilysu at ddibenion ymchwil ac er mwyn cynnal a gwella ei systemau a'i brosesau mewnol.

Gellir gweld manylion ein polisi diogelu data yn ein hysbysiad preifatrwydd trwy droi at: **www.nmc.org.uk/contact-us/data-protection/privacy-notice**

# Sut i gysylltu â CNB

Am ragor o wybodaeth am ailddilysu, trowch at ein gwefan, sef **www.nmc.org.uk/revalidation** sy'n cynnwys gwybodaeth am yr holl agweddau ar ailddilysu.

Os ydych yn dymuno gwneud cwyn neu ddarparu adborth am safon ein gwasanaeth, trowch at dudalennau 'Cysylltu â ni' ar ein gwefan, sef yn **www.nmc.org.uk/contact-us/complaints-about-us.**

# Deall termau allweddol

1. **Y broses gofrestru:** Bob tair blynedd, o'r adeg y bydd nyrs, bydwraig a chydymaith nyrsio yn ymuno (neu'n ail-ymuno) â'r gofrestr, bydd angen iddynt adnewyddu eu cofrestriad trwy ailddilysu. Bob blwyddyn, bydd angen iddynt gynnal eu cofrestriad hefyd trwy dalu ffi gofrestru flynyddol. Os na fyddant yn cwblhau'r prosesau hyn mewn pryd, bydd eu cofrestriad yn dod i ben.
2. **Dyddiad dod i ben y ffi:** Y dyddiad cau er mwyn i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio dalu eu ffi gofrestru flynyddol er mwyn cynnal eu cofrestriad.
3. **Dyddiad gwneud cais i ailddilysu:** Y dyddiad cau er mwyn i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio gyflwyno'u cais i ailddilysu. Hwn yw diwrnod cyntaf y mis pan fydd eu cofrestriad yn dod i ben, felly os mai 30 Ebrill yw eu dyddiad adnewyddu, eu dyddiad gwneud cais i ailddilysu fydd 1 Ebrill.
4. **Dyddiad adnewyddu**: Y dyddiad pan fydd cofrestriad nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn cael ei adnewyddu os byddant wedi cwblhau eu cais ailddilysu yn llwyddiannus. Hwn yw diwrnod olaf y mis pan fydd eu cofrestriad yn dod i ben.
5. **Dilysu:** Y broses o archwilio cais ailddilysu nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio. Bob blwyddyn, byddwn yn dewis sampl o geisiadau ailddilysu ac yn gofyn am wybodaeth bellach at ddibenion dilysu gan yr unigolyn. Byddwn yn sicrhau eu bod wedi bodloni'r gofynion ailddilysu. Gellir gweld gwybodaeth bellach yn ein taflen arweiniad trwy droi at **revalidation.nmc.org.uk/verification.**

# BETH YW AILDDILYSU?

Ailddilysu yw'r broses sy'n caniatáu i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio gynnal eu cofrestriad gyda CNB.

Fel rhan o'r broses hon, bydd angen i bawb ar ein cofrestr fodloni amrediad o ofynion a gynlluniwyd i ddangos eu bod yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf yn y maes a'u bod yn cynnal eu gallu i wneud gwaith diogel ac effeithiol mewn ffordd weithredol. Mae angen i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio gasglu tystiolaeth a chynnal cofnodion er mwyn dangos i gadarnhawr eu bod wedi bodloni'r holl ofynion ailddilysu.

Bob tair blynedd, gofynnir i bobl ar ein cofrestr i wneud cais ailddilysu gan ddefnyddio system CNB Ar-lein fel ffordd o adnewyddu eu cofrestriad gyda ni.

Nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio sy'n gyfrifol am gwblhau'r broses ailddilysu. Nhw yw perchnogion eu proses ailddilysu.

Nid ffordd newydd i gyflogwyr fynegi pryderon ynghylch addasrwydd i wneud gwaith yw ailddilysu. Nid proses er mwyn i gyflogwyr farnu a yw nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn addas i wneud gwaith neu asesiad yn erbyn gofynion eu cyflogaeth bresennol neu eu cyn gyflogaeth yw ailddilysu. Dylid mynegi pryder am addasrwydd nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio i wneud eu gwaith yn ddi-oed trwy ein gweithdrefnau addasrwydd i wneud gwaith. Gweler adran 'Pryderon addasrwydd i wneud gwaith' y ddogfen arweiniad hon.

## Diben ailddilysu

Diben ailddilysu yw gwella'r gweithgarwch i ddiogelu'r cyhoedd, trwy sicrhau bod nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn dangos eu gallu parhaus i wneud gwaith diogel ac effeithiol trwy gydol eu gyrfa.

Un o brif gryfderau ailddilysu yw ei fod yn annog nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio i ddefnyddio'r Cod yn ystod eu gwaith o ddydd i ddydd a'u datblygiad personol. Mae'n bwysig bod cyflogwyr yn ymwybodol o'r Cod a'r safonau a ddisgwylir gan nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio cofrestredig yn eu gwaith proffesiynol.

Mae ailddilysu yn cynnwys gofynion sy'n annog nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio i geisio adborth gan gleifion, defnyddwyr gwasanaeth a chydweithwyr. Mae'n gofyn iddynt ystyried rôl y Cod yn eu gwaith trwy gael trafodaeth fyfyriol gyda nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio arall a cheisio cadarnhad eu bod wedi bodloni'r gofynion hynny gan unigolyn priodol.

Bydd yn annog ymgysylltu â thrafodaethau a rhwydweithiau proffesiynol ac yn lleihau arwahanrwydd proffesiynol.

Mae ailddilysu yn meithrin diwylliant o rannu, myfyrio a gwella. Trwy gyfrwng datblygiad proffesiynol parhaus, bydd nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn datblygu sgiliau newydd er mwyn ymateb i ddatblygiadau ym maes nyrsio a bydwreigiaeth.

Bydd ailddilysu yn gwella gweithgarwch ymgysylltu cyflogwyr gyda'r nyrsys, y bydwragedd a'r cymdeithion nyrsio y maent yn eu cyflogi, gan gynyddu eu hymwybyddiaeth o'r ffordd y maent, fel gweithwyr proffesiynol rheoledig, yn bodloni ein safonau rheoliadol. Bydd yn annog trafodaethau cynnar ynghylch pryderon am waith cyn iddynt waethygu neu cyn y bydd gofyn eu cyfeirio atom ni, gan gynyddu'r mynediad i a'r cyfranogiad mewn datblygiad proffesiynol ac arfarnu.

Trwy gyfrwng ailddilysu, rydym yn dymuno creu perthynas ryngweithiol ac ar draws gyrfaoedd gyda'n nyrsys, ein bydwragedd a'n cymdeithion nyrsio, gan gynyddu ein dealltwriaeth o'u gwaith ac o'r boblogaeth nyrsio, bydwreigiaeth a chymdeithion nyrsio yn ehangach. Drwy'r broses ailddilysu, rydym am greu cydberthynas waith ryngweithiol a pharhaol â'n nyrsys a'n bydwragedd, a gwella ein dealltwriaeth o'u hymarfer a'r boblogaeth nyrsio a bydwreigiaeth yn ehangach.

> *Mae Y Cod: Safonau ymddygiad ac arfer proffesiynol ar gyfer nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio* yn cyflwyno'r safonau proffesiynol y mae'n rhaid i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio eu cynnal er mwyn cofrestru i weithio yn y DU. Gweler **www.nmc.org.uk/code** am wybodaeth bellach.



# Y GOFYNION AILDDILYSU A'R BROSES

Mae nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio unigol yn gyfrifol am ailddilysu, a nhw sy'n berchen ar y broses ailddilysu. Mae'r broses ailddilysu yn cychwyn ar ddechrau'r cyfnod adnewyddu o dair blynedd a disgwyliwn i bawb ar ein cofrestr fod yn gweithio tuag at fodloni'r gofynion trwy gydol y cyfnod hwn er mwyn sicrhau eu bod yn barod ar gyfer yr adeg pan fydd gofyn iddynt gyflwyno eu cais. Os bydd nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn bodloni ein holl ofynion, gallant gwblhau eu proses ailddilysu ac adnewyddu eu cofrestriad gyda CNB.

Isod, gweler rhestr o'r holl ofynion ailddilysu y mae angen i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio eu bodloni. Nodir manylion pellach y gofynion hyn a'r dystiolaeth y bydd angen i bobl ar ein cofrestr ei chadw yn *Sut i ailddilysu gyda CNB*.

- Isafswm o 450 awr o waith ar gyfer pob rhan o'r gofrestr (nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio)
- 900 awr ar gyfer y rhai sy'n ailddilysu fel cofrestrai deuol, er enghraifft nyrs (gan gynnwys nyrs/SCPHN) a bydwraig (gan gynnwys bydwraig/SCPHN) [1]
- 35 awr o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP), y mae'n rhaid bod o leiaf 20 awr ohono yn ddysgu cyfranogol
- Pum darn o adborth sy'n ymwneud â'u gwaith
- Pum adroddiad myfyriol ysgrifenedig am eu DPP a/neu adborth sy'n ymwneud â'u gwaith a/neu ddigwyddiad neu brofiad yn eu gwaith, a sut y mae hyn yn ymwneud â'r Cod
- Trafodaeth fyfyriol gyda nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio
- Datganiad ynghylch iechyd a chymeriad, a
- Threfniant indemniad proffesiynol.

Mae angen bod yr unigolyn sy'n ailddilysu wedi bodloni'r gofynion hyn yn ystod y dair blynedd ers yr adnewyddwyd eu cofrestriad y tro diwethaf neu ers iddynt ymuno â'r gofrestr.

Ar ôl iddynt gasglu tystiolaeth eu bod wedi bodloni'r gofynion hyn, bydd angen iddynt gael trafodaeth gadarnhau lle y byddant yn dangos i gadarnhawr priodol eu bod wedi bodloni'r gofynion. Disgwyliwn i'r unigolyn sy'n ailddilysu sicrhau cadarnhad yn ystod 12 mis olaf eu cyfnod adnewyddu o dair blynedd.

Dylai cyflogwyr ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparir yn y ddogfen hon, ac mewn mannau eraill gan CNB, er mwyn ymgyfarwyddo â'r gofynion hyn. Ar dudalennau 16-21, rydym yn darparu gwybodaeth bellach ynghylch yr hyn y mae'r gofynion yn eu golygu i chi a sut y gallwch chi gynorthwyo nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio i'w bodloni.

# Y broses ailddilysu

Bydd angen i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio adnewyddu eu cofrestriad gyda CNB bob tair blynedd trwy gyflwyno cais ailddilysu ar-lein.

Byddwn yn gwneud addasiadau ar gyfer pobl ar ein cofrestr nad ydynt yn gallu troi at CNB Ar-lein, er enghraifft oherwydd anabledd. Yn ogystal, byddwn yn darparu cymorth i unigolion y mae angen help ychwanegol arnynt er mwyn bodloni'r gofynion ailddilysu. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn Taflen arweiniad – Cymorth i'ch helpu i ailddilysu.

Mae'r cais ar-lein yn agor 60 diwrnod cyn eu dyddiad ymgeisio er mwyn ailddilysu, sef diwrnod cyntaf y mis pan fydd eu cofrestriad yn dod i ben. **Rhaid iddynt gyflwyno'u cais i ailddilysu erbyn y dyddiad hwn.**

Y diwrnod olaf o'r mis pan fydd eu cofrestriad yn dod i ben yw eu dyddiad adnewyddu. Gall nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio gadarnhau eu dyddiad adnewyddu trwy CNB Ar-lein. Gall sefydliadau a chyflogwyr gadarnhau dyddiad adnewyddu y bobl y maent yn eu cyflogi trwy Wasanaeth Cadarnhad i Gyflogwyr CNB.

Ar ôl i'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio gyflwyno'u cais i ailddilysu, bydd CNB yn gwneud penderfyniad am eu cais. Yn ogystal, bydd angen iddynt dalu eu ffi gofrestru flynyddol fel rhan o'u cais i ailddilysu. Ni adnewyddir eu cofrestriad nes byddwn yn cael eu taliad.

Sylwer mai'r unig ffordd i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio y mae eu henw wedi dod oddi ar y gofrestr, i ddychwelyd i'r gofrestr yw trwy wneud cais i gael eu hailddderbyn. Gall y broses hon gymryd rhwng pythefnos a chwe wythnos, ac ni fyddai modd iddynt wneud eu gwaith yn ystod y cyfnod hwnnw.

Bob blwyddyn, byddwn yn dewis sampl o geisiadau ailddilysu ac yn gofyn i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio ddarparu gwybodaeth bellach i ni er mwyn dilysu'r datganiadau a wnaethant fel rhan o'u cais i ailddilysu. Nid yw hyn yn golygu bod gennym unrhyw bryderon am eu cais. Sylwer y bydd unrhyw nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio a ddewisir ar gyfer y broses ddilysu yn parhau i gael eu cynnwys ar y gofrestr wrth i ni gynnal y broses ddilysu, ac y gallant barhau i wneud eu gwaith, hyd yn oed os bydd y broses yn parhau ar ôl eu dyddiad adnewyddu, wrth i ni adolygu'r wybodaeth y byddant yn ei darparu.

# Cadw tystiolaeth

Argymhellwn yn gryf bod nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn cadw tystiolaeth o'r ffaith eu bod wedi bodloni'r gofynion ailddilysu mewn portffolio. Os ydynt eisoes yn cadw portffolio proffesiynol, gall tystiolaeth ailddilysu fod yn rhan o'r portffolio hwnnw. Nid oes angen iddynt gynnal portffolio ar wahân ar gyfer ailddilysu neu ddefnyddio e-bortffolio o reidrwydd.

Bydd hyn o gymorth yn ystod y drafodaeth y byddant yn ei chael gyda'u cadarnhawr. Bydd angen iddynt sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael hefyd rhag ofn y byddwn yn gofyn am gael ei gweld er mwyn dilysu'r datganiadau a wnaethpwyd ganddynt fel rhan o'u cais.

Ni ddylai portffolios gofnodi unrhyw wybodaeth a allai adnabod unigolyn, os yw'r unigolyn hwn yn fyw neu wedi marw. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid cofnodi'r holl wybodaeth mewn ffordd sy'n golygu na ellir adnabod unrhyw glaf, defnyddiwr gwasanaeth, cydweithiwr neu unigolyn arall ohoni.

Mae'r adran ynghylch gwybodaeth anadnabyddadwy yn *Sut i ailddilysu gyda CNB* yn cynnig arweiniad am y ffordd y gall nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio sicrhau nad yw eu portffolios yn cynnwys unrhyw wybodaeth a allai nodi unigolyn, yn ogystal â sut i storio data.

Disgwyliwn i unrhyw dystiolaeth gael ei chadw yn Saesneg ac mae'n rhaid i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio gyflwyno eu cais ailddilysu, ynghyd ag unrhyw wybodaeth ddilysu ddilynol, yn Saesneg. Mae'n **Cynllun Iaith Gymraeg** yn nodi sut y byddwn yn gweithredu egwyddor triniaeth gyfartal ar gyfer yr iaith Gymraeg mewn agweddau ar ein busnes, gan gynnwys darparu a chynllunio gwasanaeth a chyfathrebu.



# RÔL CYFLOGWYR YN Y BROSES AILDDILYSU

Mae gan nifer o nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio gyflogwr. Mae'n bwysig eich bod chi fel cyflogwr yn ymwybodol o'r Cod a'r safonau a ddisgwylir gan nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio cofrestredig yn eu gwaith proffesiynol.

Yn ogystal, mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol o'r ffaith nad asesiad yn erbyn gofynion cyflogwr presennol neu gyn gyflogwr yw ailddilysu.

Dim ond CNB fel y rheolydd sy'n gallu penderfynu pwy fydd yn parhau i gael eu cynnwys ar ein cofrestr. Os, fodd bynnag, nad yw unigolyn yn dymuno bod ar y gofrestr mwyach, gallant benderfynu caniatáu i'w cofrestriad ddod i ben.

Nid ydym yn bwriadu cymryd camau yn erbyn cyflogwyr sy'n darparu gwybodaeth anghywir trwy amryfusedd. Fodd bynnag, waeth beth fo eu rôl yn y broses ailddilysu, disgwylir i gyflogwyr weithredu mewn ffordd onest a didwyll.

Os ceir rheswm dros gredu bod y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio y darparoch chi wybodaeth amdanynt wedi gwneud datganiad anwir yn eu cais ailddilysu yn fwriadol, gellir defnyddio gwybodaeth a ddarparwyd gennych chi mewn ffordd onest a didwyll fel cyflogwr er mwyn ymchwilio i unrhyw achos honedig o dorri'r Cod ac at ddibenion unrhyw achosion addasrwydd i wneud gwaith dilynol yn erbyn y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio.

## Arfarniadau

Mae arfarniadau yn ffordd i gyflogwyr asesu perfformiad eu cyflogeion yn erbyn gofynion eu rôl, gan nodi meysydd i'w gwella a'u datblygu. Cynlluniwyd y broses ailddilysu mewn ffordd sy'n golygu y gellir ei chyflawni fel rhan o arfarniad rheolaidd, er ei bod yn bwysig nodi'r gwahaniaeth rhwng y ddwy broses.

Argymhellwn yn gryf, pan fo modd, bod y drafodaeth ynghylch rhoi cadarnhad yn rhan o arfarniad blynyddol y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio. Efallai y bydd o gymorth cynnwys trafodaeth ailddilysu yn ystod pob arfarniad blynyddol fel y gall y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio roi diweddariad i'w cadarnhawr ynghylch eu cynnydd yn y broses ailddilysu, er nad yw hyn yn hanfodol.

Efallai yr hoffai unigolion ar ein cofrestr gael eu trafodaeth fyfyriol a'u trafodaeth ynghylch cadarnhad fel rhan o arfarniad blynyddol os yw eu rheolwr llinell yn nyrs, yn fydwraig neu'n gydymaith nyrsio sydd wedi cofrestru gyda CNB.

Os nad ydych chi, fel cyflogwr, yn darparu arfarniadau rheolaidd ar hyn o bryd, gallech ystyried trefnu arfarniad ar gyfer nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio cyn dyddiad eu cais ailddilysu.

Fodd bynnag, bydd nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio nad ydynt yn cael arfarniadau rheolaidd, neu sy'n dewis peidio cael eu trafodaeth ynghylch cadarnhad fel rhan o arfarniad, yn gallu adnewyddu eu cofrestriad o hyd trwy fodloni'r gofynion ailddilysu. Nid oes gofyn iddynt drefnu bod unigolyn arall neu sefydliad yn cynnal arfarniad at ddibenion ailddilysu.

# Cyflogwyr a chadarnhad

Yn ogystal â darparu cymorth i'r nyrsys, y bydwragedd a'r cymdeithion nyrsio y maent yn eu cyflogi wrth iddynt fynd trwy'r broses ailddilysu, gellid gofyn hefyd i gyflogwyr gyflawni rôl cadarnhawr a phenderfynu a yw unigolyn ar ein cofrestr wedi bodloni'r gofynion ailddilysu. Os gofynnir i chi gyflawni'r rôl hwn, sicrhewch eich bod yn darllen ein gwybodaeth i gadarnhawyr. Efallai y gofynnir i chi gyflawni rôl partner trafodaeth fyfyriol hefyd. Rydym wedi darparu gwybodaeth bellach am y rôl hwn yn ein taflen arweiniad yn arweiniad a gwybodaeth.

# Pryderon ynghylch addasrwydd i wneud gwaith

Os bydd cyflogwr, nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio, neu unrhyw unigolyn arall, yn dod yn ymwybodol o bryder difrifol ynghylch addasrwydd nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio arall i wneud eu gwaith, dylent godi hyn yn ddi-oed trwy ein gweithdrefnau addasrwydd i wneud gwaith. Mae gan bawb ar ein cofrestr ddyletswydd broffesiynol i fynegi pryder ynghylch gwaith nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio arall naill ai trwy eu cyflogwr neu'n uniongyrchol gyda ni. Ni ddylent aros nes bydd hi'n bryd i nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio adnewyddu eu cofrestriad trwy'r broses ailddilysu er mwyn codi pryder ynghylch addasrwydd i wneud gwaith. Mae CNB yn cael cyswllt gyda chyflogwyr trwy'r Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr er mwyn sicrhau bod cyfeiriadau nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn briodol a'u bod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Gallwn eich helpu gyda:

- gwneud cyfeiriadau
- symud achosion addasrwydd i wneud gwaith yn eu blaen
- darparu dysgu ac ymsefydlu ar gyfer addasrwydd i wneud gwaith
- gwrando ar gyflogwyr a rhannu gwybodaeth.

Am fanylion pellach am y gwasanaeth, trowch at ein gwefan lle y gallwch gysylltu â'r tîm.

Nid yw ailddilysu yn creu ffordd newydd o fynegi pryder o'r fath ynghylch addasrwydd nyrs bydwraig neu gydymaith nyrsio i wneud eu gwaith, ac nid diben y cam cadarnhau yn y broses ailddilysu yw er mwyn i'r cadarnhawr ffurfio barn ynghylch a yw nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn addas i wneud gwaith, ond yn hytrach, cadarnhau bod yr unigolyn wedi bodloni'r gofynion ailddilysu.

Os bydd nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn destun ymchwiliad gan CNB, gorchymyn amod (au) ar eu gwaith neu rybudd, gallant wneud cais i adnewyddu eu cofrestriad o hyd, ar yr amod eu bod yn bodloni'r holl ofynion ailddilysu. Fodd bynnag, byddant yn parhau i fod yn destun prosesau addasrwydd i wneud gwaith CNB a chanlyniad y prosesau hynny.

Os bydd unigolyn ar ein cofrestr yn destun gweithdrefn ddisgyblu fewnol, byddant yn gallu gwneud cais i adnewyddu eu cofrestriad ar yr amod eu bod yn bodloni'r holl ofynion ailddilysu. Fodd bynnag, os bydd y weithdrefn ddisgyblu fewnol hon yn cynnwys pryderon am eu haddasrwydd i wneud gwaith, dylid codi'r rhain mewn ffordd briodol ar yr adeg honno. Ni fyddai hyn o fewn cwmpas y broses ailddilysu.neu'r fydwraig, dylai'r rhain gael eu codi yn y ffordd briodol ar y pryd. Ni fyddai hyn yn dod o dan y broses ailddilysu.

Am ragor o wybodaeth am ein prosesau addasrwydd i wneud gwaith, gweler **www.nmc.org.uk/concerns-nurses-midwives/what-we-do/what-is-fitness-to-practise**. Gallwch ddarganfod sut i wneud cyfeiriad trwy droi at **www.nmc.org.uk/report-nurse-midwife.**

# DARPARU CYMORTH I NYRSYS, BYDWRAGEDD A CHYMDEITHION NYRSIO

Mae'n model ar gyfer ailddilysu ym maes nyrsio a bydwreigiaeth wedi cael ei ddatblygu gyda'r bwriad y gellir ei weithredu ym mhob math o leoliad gwaith, gan gynnwys y rhai lle y mae nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn gweithio'n annibynnol heb fawr iawn o gymorth neu ddim cymorth o gwbl.

Nid oes rheidrwydd arnoch i ddarparu cymorth penodol, fodd bynnag, rydym yn gwybod y bydd cyflogwyr da yn dymuno cael cymorth yn ei le er mwyn sicrhau bod nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn gymwys i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Yn ogystal, bydd o fudd i gyflogwyr annog myfyrio yn ystod gwaith bob dydd (nid at ddiben ailddilysu yn unig), gan feithrin diwylliant o rannu, dysgu a gwella.

Ni fydd nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio na fyddant yn ailddilysu yn cael eu cynnwys yn ein cofrestr mwyach, felly ni fyddant yn gallu gweithio fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio cofrestredig mwyach.

Credwn y bydd cyflogwyr yn cael budd gan weithgarwch ymgysylltu cadarnhaol gyda'r broses ailddilysu ac y bydd y rhai sy'n paratoi ar gyfer y broses, sy'n buddsoddi ynddi ac sy'n ei chefnogi yn cael y budd mwyaf ohoni. Yn ogystal, mae'n cynnig cyfle i gyflogwyr a sefydliadau gynnal asesiad ehangach o'r systemau ansawdd a sicrwydd sydd ganddynt mewn grym.

Ceir amrediad o gymorth y gallech ei ddarparu i'ch nyrsys, eich bydwragedd a'ch cymdeithion nyrsio er mwyn eu helpu i ailddilysu. Isod, rydym yn nodi'r cymorth lleiaf y dylai cyflogwyr ei ddarparu yn ein barn ni, a'r hyn y byddai'n rhesymol i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio ei ddisgwyl gan eu cyflogwr mewn pedwar maes allweddol: ymwybyddiaeth a diwylliant; capasiti a gallu adnoddau; systemau a phrosesau; ac arweiniad, offerynnau a chymorth. Mae deunyddiau cymorth ychwanegol ar gael ar wefan CNB sef **revalidation.nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information**.

# Ymwybyddiaeth a diwylliant

## Cymorth lleiaf

- Codi ymwybyddiaeth o ailddilysu ymhlith eich nyrsys, eich bydwragedd a'ch cymdeithion nyrsio.

## Disgwyliad rhesymol

- Cynorthwyo nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio trwy gydol y cyfnod ailddilysu cyfan.
- Bod yn ymwybodol o'r safonau medrusrwydd newydd ac annog nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio i fyfyrio am y ffordd y mae cwmpas eu gwaith yn ymwneud â'r safonau, a gweithgareddau DPP ategol y byddent yn eu helpu i wella'u sgiliau, yn enwedig os ydynt yn goruchwylio a/neu'n asesu myfyrwyr fel rhan o'u rôl.
- Cynorthwyo nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio trwy sefyllfaoedd y gallent effeithio ar eu gallu i fodloni'r holl ofynion ailddilysu, megis os bydd cyflogai i ffwrdd ar gyfnod o absenoldeb helaeth. Mae enghreifftiau o'r cymorth y gallech ei gynnig yn cynnwys eu cynghori i fanteisio i'r eithaf ar ofynion y maent eisoes wedi'u bodloni megis ysgrifennu adroddiad myfyriol ar sail DPP y maent eisoes wedi'i gwblhau neu gynnig cyngor am ffyrdd amgen o gasglu adborth ynghylch eu gwaith.
- Trafod ailddilysu gyda'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio cyn cyfnod o absenoldeb o'r gwaith a gynlluniwyd, er mwyn creu cynllun gweithredu sy'n sicrhau y gallant fodloni'r gofynion ailddilysu mewn pryd, boed hynny cyn eu cyfnod o absenoldeb, yn ystod y cyfnod hwnnw neu ar ôl y cyfnod hwnnw.
- Gweithredu cynlluniau sylfaenol er mwyn cynorthwyo ailddilysu a chyflwyno'r rhain i uwch-arweinwyr eich sefydliad.
- Hysbysu'r unigolyn sydd ar fin ailddilysu o unrhyw bolisïau cyflogaeth sy'n mynnu eu bod yn cynnal eu cofrestriad trwy gydol eu habsenoldeb mamolaeth, eu habsenoldeb salwch neu eu gwyliau blynyddol er mwyn cael tâl yn ystod y cyfnod hwn.
- Meithrin diwylliant o rannu, myfyrio a gwella.



# Arweiniad, offerynnau a chymorth

## Cymorth lleiaf

- Cyfeirio nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio at wefan CNB, lle y byddant yn gweld yr holl arweiniad, gwybodaeth a deunyddiau y bydd angen iddynt eu cael am ailddilysu.

## Disgwyliad rhesymol

- Darparu gwybodaeth bellach am y sawl yn eich sefydliad sy'n gallu cyflawni rôl cadarnhawr a/neu bartner trafodaeth fyfyriol fel y nodir yng ngofynion CNB.
- Adolygu a fyddai modd gweithredu systemau sefydliadol anffurfiol er mwyn caniatáu dysgu DPP paratoadol.
- Cynnwys cyfathrebu ynghylch y gofynion ar gyfer y broses ailddilysu ar-lein a'r amseriadau yn eich systemau cyfathrebu lleol.
- Atgoffa nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio o'u rhwymedigaethau cyfrinachedd dan y Cod a deddfwriaeth Diogelu Data.

# Mesurau cefnogol eraill

## Cymorth lleiaf

Rydym yn cydnabod y bydd rhai cyflogwyr a sefydliadau yn dymuno annog diwylliant dysgu o hyd, gan ddefnyddio ailddilysu fel cyfle i gryfhau eu prosesau eu hunain. Efallai y byddant yn dewis gweithredu mesurau cefnogol ychwanegol eraill ond nid yw'r rhain yn hanfodol i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio eu dilysu.

Gallai mesurau o'r fath gynnwys:

- hyfforddi staff i gynorthwyo ailddilysu
- datblygiad e-bortffolios
- deunydd cynorthwyol lleol ychwanegol i fynd law yn llaw ag arweiniad CNB
- seminarau, sesiynau astudio a 'hyrwyddwyr ailddilysu' er mwyn rhaeadru gwybodaeth i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio rheng flaen.

Mae angen i ofalwyr ofalu bod unrhyw brosesau y byddant yn eu gweithredu o gymorth, yn hwyluso ac yn cyd-fynd â'r pwyslais y mae ailddilysu yn ei roi ar nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn cymryd cyfrifoldeb dros fodloni gofynion CNB.

## E-bortffolios

Un ffordd y gallai cyflogwyr a sefydliadau ystyried cynorthwyo eu nyrsys, eu bydwragedd a'u cymdeithion nyrsio yw trwy ddarparu system e-bortffolio er mwyn iddynt gadw eu tystiolaeth eu bod wedi bodloni'r gofynion ailddilysu. Sylwer yr argymhellir cadw portffolio, ond nid yw'n ofyniad er mwyn ailddilysu.

Os byddwch yn penderfynu darparu'r gwasanaeth hwn, bydd angen i chi fod yn ymwybodol o'r ffaith y bydd goblygiadau diogelu data. Am wybodaeth bellach am e-bortffolios, gweler ein taflen arweiniad yn arweiniad a gwybodaeth.

# Deddf Cydraddoldeb 2010

Ein nod yw sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth y bobl ar ein cofrestr, a'r gymuned ehangach yr ydym yn ei gwasanaethu. Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn bwysig ym maes nyrsio a bydwreigiaeth. Mae'n bwysig bod cyflogwyr yn hyrwyddo diwylliant sy'n ei ymgorffori ac sy'n cynorthwyo'r nyrsys, y bydwragedd a'r cymdeithion nyrsio y maent yn eu cyflogi i fodloni safonau CNB.

Deddfwriaeth sy'n berthnasol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban[2] yw Deddf Cydraddoldeb 2010 ('y Ddeddf'). Mae'n diogelu pobl rhag gwahaniaethu, aflonyddwch neu erledigaeth. Mae gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un oherwydd y nodweddion canlynol yn erbyn y gyfraith:

- oedran
- ailbennu rhywedd
- bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil
- bod yn feichiog neu yn y cyfnod mamolaeth
- anabledd[3]
- hil, gan gynnwys lliw, cenedligrwydd, cefndir ethnig neu genedlaethol
- crefydd, credo neu ddiffyg crefydd neu gredo
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol.

Rydym yn rhan o system sy'n gweithio gyda nifer o sefydliadau, y mae'n rhaid i bob un ohonynt gydymffurfio â chyfraith cydraddoldeb a hawliau dynol. Disgwyliwn i holl gyflogwyr nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio gyflawni eu dyletswydd gyfreithiol yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Dylai cyflogwyr gynorthwyo nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio trwy wneud addasiadau er mwyn gwaredu rhwystrau dianghenraid i gyflogaeth a hyfforddiant er mwyn iddynt allu bodloni'r gofynion ailddilysu.

# GOFYNION AILDDILYSU A CHYFLOGWYR

**Yn yr adran hon, rydym yn amlygu rhai o'r rhannau allweddol o'r gofynion ailddilysu y dylai cyflogwyr fod yn gyfarwydd â nhw. Sylwer y nodir manylion llawn y gofynion ailddilysu a'r ffordd y gall nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio eu bodloni yn 'Sut i ailddilysu gyda CNB'. Cynlluniwyd y wybodaeth isod ar gyfer cyflogwyr yn unig;  os gofynnir i chi gyflawni rôl y cadarnhawr a/neu'r partner trafodaeth fyfyriol, dylech ddarllen y wybodaeth yr ydym wedi'i darparu er mwyn cynorthwyo deiliaid y rolau hyn.**

## 450/900 awr o waith[4]

Mae angen i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio gadw tystiolaeth ysgrifenedig eu bod wedi gweithio isafswm yr oriau sy'n ofynnol ar gyfer eu cofrestriad. Gallai hyn gynnwys eu contract cyflogaeth (yn nodi nifer yr oriau), taflenni amser, manylebau swydd a phroffiliau swydd.

Dim ond oriau gwaith a gaiff eu cwblhau wrth weithio fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio cofrestredig sy'n cyfrif tuag at isafswm yr oriau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyfyngedig i waith clinigol ac mae'n cynnwys gwaith mewn rolau anghlinigol megis rheoli, polisi ac addysg. Mae hyn yn cynnwys gwaith am dâl a gwaith gwirfoddol.

- Rhaid i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio gyflawni eu horiau gwaith mewn rôl lle y maent yn dibynnu ar eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u profiad o fod yn nyrs, yn fydwraig neu'n gydymaith nyrsio cofrestredig.
- Mae hyn yn cynnwys gweithio fel nyrs, bydwraig, SCPHN a chydymaith nyrsio, mewn rolau y mae'n debygol y bydd gofyn sicrhau cofrestriad er mwyn eu cyflawni.
- Mae hyn hefyd yn cynnwys gwaith mewn rolau lle nad yw'r contract cyflogaeth yn mynnu bod nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio wedi cofrestru gyda ni, ond mae'r rôl yn dibynnu ar eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u profiad o fod yn nyrs, yn fydwraig neu'n gydymaith nyrsio cofrestredig. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys rolau ym maes iechyd y cyhoedd neu reoli nyrsys, bydwragedd neu gymdeithion nyrsio, comisiynu, polisi ac addysg.
- Gallai hyn gynnwys gwaith a gyflawnir mewn rolau gwirfoddol, lle y mae nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn dibynnu ar eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u profiad o fod yn nyrs, yn fydwraig neu'n gydymaith nyrsio cofrestredig. Rydym wedi darparu templed a allai helpu'r nyrs neu'r fydwraig i gofnodi ei horiau ymarfer. Mae hyn yn cynnwys lleoliad ymarfer, dyddiadau ymarfer, cwmpas ymarfer, disgrifiad o'r gwaith a wnaed a nifer yr oriau.

Ni ellir cyfrif y gweithgareddau canlynol tuag at y gofyniad ynghylch oriau gwaith:

- Ni ellir cyfrif oriau a gyflawnir yn cyflawni rôl cynorthwyydd neu weithiwr cymorth gofal iechyd, nyrsio neu fydwreigiaeth tuag at oriau gwaith fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio cofrestredig.
- Oriau a gaiff eu cwblhau yn gweithio mewn proffesiwn rheoledig ar wahân, er enghraifft wrth weithio fel parafeddyg neu feddyg meddygol.
- Ni all nyrsys sy'n dilyn rhaglen bydwreigiaeth 18 mis ddefnyddio'r oriau y byddant yn eu treulio yn hyfforddi fel bydwraig er mwyn cynnal eu cofrestriad fel nyrs. Byddant yn gallu defnyddio unrhyw oriau gwaith a gyflawnir fel nyrs, naill ai cyn neu ar ôl eu cwrs bydwreigiaeth, yn ystod y cyfnod o dair blynedd.

Rydym wedi darparu templed y gallai fod o ddefnydd i unigolion ar ein cofrestr er mwyn iddynt gofnodi eu horiau gwaith. Mae hyn yn cynnwys lleoliad y gwaith, dyddiadau y cyflawnwyd y gwaith, cwmpas y gwaith, disgrifiad o'r gwaith a gyflawnwyd a nifer yr oriau.

Mae nyrs iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol (SCPHN) yn golygu nyrs neu fydwraig gofrestredig sydd wedi cofrestru yn rhan y gofrestr ar gyfer Nyrsys Iechyd y Cyhoedd Cymunedol Arbenigol hefyd.

## 35 awr o DPP, y mae'n rhaid bod o leiaf 20 awr ohono wedi cynnwys dysgu cyfranogol

Fel gweithwyr proffesiynol, mae gan nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio ddyletswydd i ddiweddaru eu gwybodaeth a'u sgiliau trwy gyfrwng proses barhaus o ddysgu a myfyrio.

Rhaid i unrhyw weithgarwch dysgu fod yn berthnasol i gwmpas eu gwaith fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio, ac ni fyddai'n cynnwys hyfforddiant gorfodol nad yw'n ymwneud â'u gwaith yn uniongyrchol. Yn arbennig, gallwch gynorthwyo nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio i gyflawni elfen gyfranogol y gofyniad hwn.

Mae CNB yn cyhoeddi ac yn diweddaru safonau medrusrwydd i bawb ar ein cofrestr yn rheolaidd. Mae'r rhain yn nodi'r hyn yr ydym yn disgwyl bod myfyrwyr yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud er mwyn ymuno â'n cofrestr a gweithio mewn ffordd ddiogel ac effeithiol. Yn ogystal, mae'r safonau yn adlewyrchu'r hyn y gall y cyhoedd ddisgwyl bod nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn ei wybod ac yn gallu ei wneud er mwyn darparu gofal diogel, tosturiol ac effeithiol. Dylai nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio cofrestredig adolygu'r safonau medrusrwydd diweddaraf sy'n berthnasol iddynt, gan fyfyrio sut y mae cwmpas eu gwaith yn ymwneud â'r safonau ac ystyried eu hanghenion hyfforddiant. Mae hyn yn arbennig o bwysig os ydynt yn goruchwylio a/neu'n asesu myfyrwyr fel rhan o'u rôl.

Dylai cyflogwyr gynorthwyo nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio i gyflawni eu gofynion o ran DPP. Maent yn ffynhonnell allweddol mynediad i hyfforddiant ar gyfer y nyrsys, y bydwragedd a'r cymdeithion nyrsio y maent yn eu cyflogi. Mae'n bwysig bod cyflogwyr yn deall y safonau medrusrwydd, a dylai ymgorffori'r rhain yn eu gwaith fod yn ystyriaeth allweddol wrth ddrafftio polisïau mewnol.

Rydym wedi darparu templed er mwyn helpu unigolion ar ein cofrestr i gofnodi eu gweithgareddau DPP.

## Pum darn o adborth sy'n ymwneud â'u gwaith

Gall nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio gael adborth gan amrediad o ffynonellau, gan gynnwys yn uniongyrchol gan gleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, myfyrwyr a chydweithwyr. Gellir ei sicrhau hefyd trwy adolygu cwynion, adroddiadau perfformiad tîm, adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol ac adborth a geir yn ystod eu harfarniad blynyddol. Gall yr adborth fod yn gadarnhaol neu'n adeiladol, a gall yr adborth fod yn seiliedig ar waith yr unigolyn neu waith eu tîm neu eu huned.

Mewn nifer o sefydliadau, cesglir adborth eisoes mewn amrywiaeth o ffyrdd. Rhaid i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio geisio caniatâd i droi at neu ddefnyddio gwybodaeth eu cyflogwr. Rhaid sicrhau unrhyw wybodaeth mewn ffordd fel na bod gwybodaeth sy'n adnabod unigolyn yn cael ei sicrhau, ei defnyddio na'i chofnodi. Er enghraifft, ni ddylai nyrsys, bydwragedd na chymdeithion nyrsio anfon negeseuon e-bost gwaith ymlaen i'w cyfrifon personol, na lawrlwytho neu gymryd copïau o gofnodion cyflogwyr.

Os bydd nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn dewis cael adborth yn uniongyrchol gan gydweithwyr, cleifion neu ddefnyddwyr gwasanaeth, rhaid iddynt nodi'n glir yn eu cais na ddylid cynnwys unrhyw wybodaeth sy'n dynodi manylion unigolion mewn unrhyw adborth a roddir. Yn ogystal, dylent eu hysbysu sut y maent yn bwriadu defnyddio eu hadborth.

Rydym wedi darparu templed y gall unigolion ar ein cofrestr ei ddefnyddio er mwyn cofnodi eu hadborth.

## Pum adroddiad myfyriol ysgrifenedig

Rhaid i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio baratoi pum adroddiad myfyriol ysgrifenedig am eu DPP a/neu adborth sy'n ymwneud â'u gwaith a/neu ddigwyddiad neu brofiad yn eu gwaith, gan ddynodi sut y mae hyn yn ymwneud â'r Cod.

Mae angen i adroddiadau myfyriol gynnwys yr hyn y mae'r unigolyn wedi'i ddysgu o'r gweithgarwch DPP, yr adborth, y digwyddiad neu'r profiad yn eu gwaith, sut y maent wedi newid neu wella eu gwaith o ganlyniad, a sut y mae'n berthnasol i'r Cod.

Rydym wedi darparu ffurflen CNB y mae'n rhaid i unigolion ar ein cofrestr ei defnyddio er mwyn cofnodi eu hadroddiadau myfyriol. Bydd hyn yn cyfrannu at eu trafodaeth fyfyriol ac yn darparu tystiolaeth i'w dangos i'w cadarnhawr.

## Trafodaeth fyfyriol gyda nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio arall sydd wedi cofrestru gyda CNB

Rhaid i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio drafod eu hadroddiadau myfyriol ysgrifenedig gyda nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio sydd wedi cofrestru gyda CNB fel rhan o drafodaeth fyfyriol.

Gallai'r partner yn y drafodaeth fyfyriol fod yn rhywun y maent yn gweithio gyda nhw yn aml neu'n rhywun o rwydwaith proffesiynol neu grŵp dysgu. Nid oes angen iddynt fod yn gweithio gyda nhw'n ddyddiol ac nid oes angen eu bod yn cyflawni'r un fath o waith neu fod yn yr un rhan o'r gofrestr â nhw (felly gall nyrs gael trafodaeth fyfyriol gyda bydwraig neu gydymaith nyrsio ac i'r gwrthwyneb).

Yr unigolyn sydd i benderfynu pwy yw'r unigolyn mwyaf priodol iddynt gael y sgwrs hon gyda nhw, gan gynnwys a ydynt ar lefel uwch neu is na nhw.

Os yw'r cadarnhawr yn nyrs, yn fydwraig neu'n gydymaith nyrsio, gall trafodaeth fyfyriol fod yn rhan o'r drafodaeth ynghylch rhoi cadarnhad.

Rydym wedi darparu ffurflen CNB y mae'n rhaid i unigolion ar ein cofrestr ei defnyddio er mwyn cofnodi eu trafodaeth, ac mae'n rhaid iddi gael ei llofnodi gan y partner trafod sydd wedi cofrestru gyda CNB, y cawsant eu trafodaeth gyda nhw.

## Datganiad ynghylch iechyd a chymeriad

Fel rhan o'u cais ailddilysu, rhaid i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio ddarparu datganiad iechyd a chymeriad i ni.

Mae angen i ni wybod a yw'r bobl ar ein cofrestr yn bodloni ein gofynion ynghylch iechyd er mwyn sicrhau eu bod yn gallu gwneud eu gwaith mewn ffordd ddiogel ac effeithiol, ar ôl i unrhyw addasiadau gael eu gwneud gennych chi, y cyflogwr. Pan fyddwn yn dweud bod rhywun yn gallu

gwneud gwaith diogel ac effeithiol, rydym yn golygu eu bod yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth, y cymeriad a'r iechyd i gyflawni eu swydd mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.

Nid ydym yn canolbwyntio ar y cwestiwn a oes gan nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio gyflwr iechyd a/neu anabledd, ond a yw'r cyflwr iechyd a/neu'r anabledd sydd ganddynt yn effeithio ar eu gwaith. Nid yw hyn yn golygu absenoldeb anabledd neu gyflwr iechyd. Gall nifer o bobl sydd ag anableddau neu gyflyrau iechyd wneud gwaith effeithiol ar ôl cael addasiadau i gynorthwyo eu gwaith, neu hebddynt.

Yr unigolyn sydd i benderfynu a yw eu hiechyd yn caniatáu iddynt fod yn gallu cyflawni gwaith diogel ac effeithiol.

Rhaid i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio ddatgan os ydynt wedi cael eu cyhuddo, eu collfarnu am gyflawni unrhyw drosedd (gan gynnwys rhyddhad amodol) neu wedi cael rhybudd ffurfiol. Gofynnir iddynt ddatgan a ydynt wedi bod yn destun unrhyw benderfyniad niweidiol gan corff proffesiynol neu reoliadol bod rhywbeth yn amharu ar eu haddasrwydd i wneud gwaith (gan gynnwys y rhai sy'n gyfrifol am reoleiddio neu drwyddedu proffesiwn iechyd a gofal cymdeithasol) ac os yw eu cymeriad yn eu galluogi i weithio mewn ffordd ddiogel ac effeithiol. Nid oes angen i gadarnhawr archwilio'r gofyniad hwn.

# Trefniant indemniad proffesiynol

Fel rhan o'u cais ailddilysu, rhaid i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio ddatgan i ni bod ganddynt, neu y bydd ganddynt pan fyddant yn gweithio, sicrwydd priodol dan drefniant indemniad proffesiynol. Yn ogystal, byddant yn dweud wrthym a yw eu trefniant indemniad trwy eu cyflogwr, aelodaeth o gorff proffesiynol, neu drefniant yswiriant preifat.

Gan bod y rhan fwyaf o gyflogwyr yn darparu sicrwydd indemniad priodol ar gyfer eu cyflogeion, dylai pob nyrs, bydwraig a chydymaith nyrsio a gyflogir gadarnhau hyn gyda'u cyflogwr (cyflogwyr).

Nid oes angen i gadarnhawr archwilio'r gofyniad hwn.

# Cadarnhad

Mae'r broses cadarnhad yn cynnwys nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn cael trafodaeth ynghylch ailddilysu gyda chadarnhawr priodol. Fel rhan o'r drafodaeth honno, byddant yn dangos i'w cadarnhawr eu bod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion ailddilysu, ac eithrio trefniant indemniad proffesiynol ac iechyd a chymeriad, nad oes angen eu cadarnhau.

Gall nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio ddewis pwy yw eu cadarnhawr, ond disgwyliwn iddynt geisio cadarnhad gan unigolion priodol. Mae rheolwr llinell yn gadarnhawr priodol, ac argymhellwn yn gryf bod pobl ar ein cofrestr yn cael cadarnhad gan eu rheolwr llinell pryd bynnag y bo modd. Nid oes yn rhaid i reolwr llinell fod yn nyrs, yn fydwraig neu'n gydymaith nyrsio sydd wedi cofrestru gyda CNB. Dylai'r broses cadarnhad annog rheolwyr llinell i ystyried a thrafod yn rheolaidd sut y mae eu nyrsys, eu bydwragedd a'u cymdeithion nyrsio yn ymgysylltu â gweithgareddau datblygiad proffesiynol er mwyn cynnal a datblygu eu cymhwystra a gwella eu gwaith.

Fodd bynnag, nid oes rheolwr llinell gan bawb ar ein cofrestr. Os nad oes gan nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio reolwr llinell, bydd angen iddynt benderfynu pwy sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu eu cadarnhad. Pryd bynnag y bo modd, argymhellwn bod eu cadarnhawr wedi cofrestru gyda CNB. Bydd o gymorth os byddant wedi cydweithio neu os bydd cwmpas eu gwaith yn debyg, ond nid yw hyn yn hanfodol.

Os na fydd hynny'n bosibl, gall nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio geisio cadarnhad gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall y maent yn gweithio gyda nhw ac y maent yn cael eu rheoleiddio yn y DU. Er enghraifft, gallent ofyn i feddyg, deintydd neu fferyllydd.

Rydym wedi darparu ffurflen CNB y mae'n rhaid i unigolion ar ein cofrestr ei defnyddio er mwyn cofnodi eu trafodaeth ynghylch cadarnhad. Bydd angen i gadarnhawyr lenwi a llofnodi'r ffurflen hon.

Rydym wedi darparu arweiniad am rôl cadarnhawyr, yn ogystal ag offeryn cadarnhau ar-lein yn **revalidation.nmc.org.uk/what-you-need-to-do/confirmation** am wybodaeth bellach am y sawl sy'n gallu cyflawni rôl y cadarnhawr.

### Nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio sydd â mwy nag un cyflogwr a/neu reolwr llinell

Bydd gan rai nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio fwy nag un cyflogwr a/neu reolwr llinell, neu byddant yn cyflawni mwy nag un rôl. Bydd angen i'r unigolion hyn sicrhau un cadarnhad sy'n ystyried eu holl waith. Bydd angen iddynt benderfynu pa reolwr llinell yw'r un mwyaf priodol i ddarparu cadarnhad eu bod wedi bodloni eu holl ofynion ailddilysu.

Argymhellwn eu bod yn cael eu trafodaeth ailddilysu a'u bod yn cael cadarnhad trwy eu cyflogwr a/neu eu rheolwr llinell lle y maent yn cyflawni rhan fwyaf eu gwaith. Efallai y byddant yn dewis cael trafodaeth ailddilysu ar gyfer pob cyflogwr a/neu gyda phob un o'u rheolwyr llinell, a dwyn allbynnau'r trafodaethau hynny i'w trafodaeth ynghylch cadarnhad.

## Cymorth a gynigir gan CNB

Deallwn y gallai fod amgylchiadau sy'n ei gwneud hi'n anos i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio fodloni'r gofynion ailddilysu. Gallai hyn fod o ganlyniad i anabledd, salwch, beichiogrwydd, cyfnod mamolaeth neu ddigwyddiad bywyd arall sy'n effeithio ar eu gallu i fodloni'r gofynion ailddilysu. Gallwn helpu i gynorthwyo pobl ar ein cofrestr i fodloni'r gofynion ailddilysu mewn sawl ffordd, er enghraifft trwy:

- helpu pobl ar ein cofrestr i ddefnyddio CNB Ar-lein neu,
- ddarparu estyniad byr i'w dyddiad gwneud cais er mwyn ailddilysu.

Am wybodaeth bellach am y cymorth y gallwn ei gynnig a sut i wneud cais am y cymorth hwn, trowch at ein taflen arweiniad cymorth er mwyn eich helpu i ailddilysu yn arweiniad a gwybodaeth.

## Cysylltu â chi er mwyn cael gwybodaeth bellach

Bob blwyddyn, byddwn yn dewis sampl o geisiadau ailddilysu ac yn gofyn i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio ddarparu gwybodaeth bellach i ni er mwyn dilysu'r datganiadau a wnaethpwyd ganddynt fel rhan o'u cais ailddilysu. Nid yw hyn yn golygu bod gennym unrhyw bryderon am eu cais.

Sylwer y bydd unrhyw nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio a ddewisir fel achosion i'w dilysu yn aros ar y gofrestr wrth i ni gynnal y broses ddilysu, hyd yn oed os bydd y broses yn ymestyn y tu hwnt i'w dyddiad adnewyddu, a gallant barhau i weithio wrth i ni adolygu'r wybodaeth y maent yn ei darparu. Bydd cofrestriad unrhyw nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio a ddewisir fel achosion i'w dilysu yn parhau i fod mewn grym nes y caiff y broses ddilysu ei chwblhau. Caiff y broses ddilysu ei chwblhau cyn pen tri mis o'u dyddiad adnewyddu.

Fel rhan o'r broses hon, efallai y byddwn yn cysylltu â chyflogwyr i ddilysu'r wybodaeth y mae nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio wedi ei darparu yn eu cais. Yn eu cais ar-lein, gofynnir i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio roi eu caniatâd i'r diben hwn. Byddwn yn cysylltu â chadarnhawyr hefyd ac efallai y byddwn yn cysylltu â phartneriaid trafodaeth fyfyriol.

A fyddech gystal ag ymateb i unrhyw gais am wybodaeth erbyn y dyddiad a nodir: os na fyddwch yn ymateb, efallai y byddwch yn peryglu cofrestriad y nyrs neu'r fydwraig.

## Gwybodaeth ychwanegol

Am wybodaeth ychwanegol am agweddau penodol ar ailddilysu, trowch at y ffynonellau canlynol:

**Nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio**
**revalidation.nmc.org.uk**

**Cadarnhawyr**
**revalidation.nmc.org.uk/what-you-need-to-do/confirmation**

**Partneriaid trafodaeth fyfyriol**
**revalidation.nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information**

**Trefniant indemniad proffesiynol**
**www.nmc.org.uk/indemnity**

# ÔL-NODION

[1] Mae cofrestriad triphlyg ar gyfer nyrs, bydwraig a chydymaith nyrsio yn bosibl hefyd;  byddai hyn yn gofyn am 1,350 awr o waith yn ystod y dair blynedd cyn hynny'

[2] Nid yw Deddf Cydraddoldeb 2010 yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon, lle y gwasgarir y ddeddfwriaeth ar draws sawl darn o ddeddfwriaeth, a gwelir rhai gwahaniaethau. Er enghraifft, mae Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998 yn cynnwys ystyriaeth o 'farn wleidyddol' fel nodwedd warchodedig hefyd.

[3] Caiff 'anabledd' ei ddiffinio yn y Ddeddf fel nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith negyddol sylweddol neu hirdymor ar allu unigolion i gyflawni gweithgareddau dyddiol arferol.

[4] Mae cofrestriad triphlyg ar gyfer nyrs, bydwraig a chydymaith nyrsio yn bosibl hefyd;  byddai hyn yn gofyn am 1,350 awr o waith yn ystod y dair blynedd cyn hynny.